

Pennod III

CORFF Y CYNRYCHIOLWYR

THE REPRESENTATIVE BODY

Chapter III

Rhifyn / Issue 1
14 Ebrill / April 2010

Pennod III

CORFF Y CYNRYCHIOLWYR

Chapter III

THE REPRESENTATIVE BODY

PENNOD III

CORFF Y CYNRYCHIOLWYR

Rhan I: Cyffredinol

1

Rhan II: Aelodaeth

2 Aelodaeth

3

4

5

Rhan III: Cymwysterau Aelodaeth

6

7

8

9

10

Rhan IV: Gweithdrefn

11

12

Rhan V: Galluoedd

13

14

15 Penodi Pwyllgorau

16 Eiddo a Rheoli Adnoddau

17

18

19

20

21

22

23

24

25

26

27

28

29

30

31

CHAPTER III

THE REPRESENTATIVE BODY

Part I:	General	1
Part II:	Composition	2
	Membership	3
		4
		5
Part III:	Qualification for Membership	6
		7
		8
		9
		10
Part IV:	Procedure	11
		12
Part V:	Powers	13
		14
	Appointment of Committees	15
	Property and Management of Resources	16
		17
		18
		19
		20
		21
		22
		23
		24
		25
		26
		27
		28
		29
		30
		31

Pennod III

CORFF Y CYNRYCHIOLWYR

Rhan I: Cyffredinol

1.

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn ddarostyngedig i'r cyfnewidiadau hynny a wneir o bryd i'w gilydd i ddarpariaethau'r Bennod hon ac i'r rheoliadau ynglŷn â Chorff y Cynrychiolwyr a fabwysiedir o bryd i'w gilydd gan y Corff Llywodraethol, ar yr amod bob amser nad yw'r darpariaethau a'r rheoliadau a'r newidiadau hynny yn gwrthdaro ag awdurdod a galluoedd a dyletswyddau statudol Corff y Cynrychiolwyr.

Rhan II: Aelodaeth

Aelodaeth

2.

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn cynnwys:

- (a) aelodau yn rhinwedd swydd, sef:
 - (i) yr Archesgob;
 - (ii) Cadeirydd Bwrdd Cyllid pob esgobaeth; a
 - (iii) Chadeirydd y Pwyllgor Sefydlog.
- (b) aelodau etholedig, sef un Clerig ac un person lleyg o bob Esgobaeth wedi eu hethol gan Gynhadledd pob Esgobaeth, a fydd yn dal eu swydd am gyfnod o dair blynedd ac a fydd ar dir i'w hail-ethol am dymhorau pellach o dair blynedd os byddant yn gymwys ym mhopeth arall;
- (c) aelodau cyfetholedig, a gyfyngir i ddau, wedi eu cyfethol gan aelodau yn rhinwedd swydd ac aelodau etholedig Corff y Cynrychiolwyr heb ystyried esgobaethau, a fydd yn dal eu swydd am gyfnod o dair blynedd ac a fydd ar dir i'w cyfethol am dymhorau pellach o dair blynedd os byddant yn gymwys ym mhopeth arall; ac
- (d) aelodau enwebedig, a gyfyngir i bedwar, wedi eu henwebu gan Fainc yr Esgobion mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Sefydlog, a fydd yn dal eu swydd am gyfnod o dair blynedd ac a fydd ar dir i'w henwebu am dymhorau pellach o dair blynedd os byddant yn gymwys ym mhopeth arall.

Chapter III

THE REPRESENTATIVE BODY

Part I: General

1.

The Representative Body shall be subject to such alterations to the provisions of this Chapter and to such regulations made in respect of the Representative Body as shall from time to time be adopted by the Governing Body, provided always that such provisions and regulations and alterations do not conflict with the Representative Body's statutory authority, powers and duties.

Part II: Composition

Membership

2.

The Representative Body shall consist of:

- (a) *ex-officio* members who shall be:
 - (i) the Archbishop;
 - (ii) the Chairman of each Diocesan Board of Finance; and
 - (iii) the Chairman of the Standing Committee.
- (b) elected members, who shall be one Cleric and one lay person from each Diocese elected by the respective Diocesan Conferences who shall hold office for a period of three years and shall be eligible for re-election for further periods of three years if otherwise duly qualified;
- (c) co-opted members who shall be limited to two, co-opted by the *ex-officio* and elected members of the Representative Body without any regard for dioceses, who shall hold office for a period of three years and shall be eligible for co-option for further periods of three years if otherwise duly qualified; and
- (d) nominated members, who shall be limited to four, nominated by the Bench of Bishops in consultation with the Standing Committee, who shall hold office for a period of three years and shall be eligible for nomination for further periods of three years if otherwise duly qualified.

3.

- (1) Bydd Cynhadledd pob Esgobaeth, ar adeg pob etholiad blynyddol, yn gwneud rhestrau atodol o Glerigion a phersonau lleyg, fel y gellir llenwi ohonynt leoedd gwag achlysurol ymhlith aelodau etholedig Corff y Cynrychiolwyr yn ôl y drefn y gosodir yr enwau ar y rhestrau hynny gan y Gynhadledd.
- (2) Bydd yr aelodau yn rhinwedd swydd a'r aelodau etholedig yn llenwi lle gwag achlysurol ymhlith yr aelodau etholedig o'r rhestrau atodol a baratowyd gan bob Cynhadledd Esgobaethol, gan benodi bob amser glerig i gymryd lle clerig a pherson lleyg i gymryd lle person lleyg.
- (3) Gall yr aelodau yn rhinwedd swydd a'r aelodau etholedig lenwi lle gwag ymhlith yr aelodau cyfetholedig hynny a gyfetholwyd ganddynt.
- (4) Gall Mainc yr Esgobion, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Sefydlog, lenwi lle gwag achlysurol ymhlith yr aelodau hynny a enwebwyd ganddynt.
- (5) Yn unol ag adran 8, ni waeth beth fo darpariaeth yr adran, bydd person a benodwyd i lenwi lle gwag achlysurol yn dal y swydd hyd at y dyddiad pan oedd yr aelod y mae'n cymryd ei le i fod i ymddeol.

4.

Ni fydd methiant ar ran unrhyw esgobaeth i ethol neu ddychwelyd aelodau, clerigol na lleyg, nac i lunio neu anfon rhestrau atodol, na methiant ar ran Corff y Cynrychiolwyr i arfer ei allu i gyfethol na llenwi lleoedd gwag, na methiant ar ran Mainc yr Esgobion i ymarfer ei gallu i enwebu na llenwi lleoedd gwag yn rhwystro Corff y Cynrychiolwyr rhag mynd ymlaen â'i waith nac yn annilysu ei drafodion.

5.

Gall unrhyw aelod o Gorff y Cynrychiolwyr ymddiswyddo trwy anfon hysbysiad mewn ysgrifen wedi ei gyfeirio at Ysgrifennydd Corff y Cynrychiolwyr.

Rhan III: Cymwysterau Aelodaeth

6.

- (1) Yn ddarostyngedig i is-adran (2) a (3), bydd pob Clerig sy'n dal anrhydedd penodiad cadeiriol, bywoliaeth neu swydd yn yr Eglwys yng Nghymru, neu drwydded oddi wrth Esgob Cadeiriol Cymru, yn gymwys i fod yn aelod o Gorff y Cynrychiolwyr ac o unrhyw un o'i bwyllgorau a'i is-bwyllgorau.

3.

- (1) Each Diocesan Conference shall, by election, make supplemental lists of Clerics and lay persons from which casual vacancies among the elected members of the Representative Body shall be filled according to the order in which they are placed on such lists by the Conference.
- (2) The *ex-officio* and elected members shall fill a casual vacancy among the elected members from the relevant supplemental list prepared by the Diocesan Conference, always appointing a cleric to succeed a cleric and a lay person to succeed a lay person.
- (3) The *ex-officio* and elected members may fill a casual vacancy among those members co-opted by them.
- (4) The Bench of Bishops, in consultation with the Standing Committee, may fill a casual vacancy among those members nominated by them.
- (5) Subject to section 8, a person appointed to fill a casual vacancy among members shall hold office until the date when the member whom he or she replaces would have been due to retire apart from that section.

4.

The failure of any diocese to elect or return members, clerical or lay, or to make and return supplemental lists, or the failure of the Representative Body to exercise its powers of co-option or filling vacancies, or the failure of the Bench of Bishops to exercise their powers of nomination or filling vacancies shall not prevent the Representative Body from proceeding with the despatch of business nor invalidate its proceedings.

5.

Any member of the Representative Body may resign from office by notice in writing addressed to the Secretary of the Representative Body.

Part III: Qualification for Membership

6.

- (1) Subject to subsections (2) and (3), every Cleric who holds a dignity, cathedral preferment, benefice or office within the Church in Wales or a licence from a Diocesan Bishop, shall be qualified to be a member of the Representative Body or any committee or sub-committee thereof.

(2) Ni fydd unrhyw Glerig sydd yng ngwasanaeth cyflogedig llawn-amser Corff y Cynrychiolwyr, Bwrdd Cyllid Esgobaeth nac unrhyw gorff taleithiol neu esgobaethol arall o'r fath yn yr Eglwys yng Nghymru yn gymwys i fod yn aelod o Gorff y Cynrychiolwyr nac unrhyw un o'i bwyllgorau na'i is-bwyllgorau.

(3) Ni fydd unrhyw Glerig sydd wedi ymddeol neu sydd wedi cyrraedd ei b/phen-blwydd yn ddeg a thrigain oed yn gymwys i fod yn aelod o Gorff y Cynrychiolwyr.

7.

(1) Yn ddarostyngedig i is-adran (2), bydd pob Cymunwr llewg sydd dros ddeunaw mlwydd oed ac sydd naill ai yn byw, neu wedi byw ar unrhyw adeg am gyfnod o ddeuddeng mis, mewn plwyf sydd yng Nghymru, neu a gyfrannodd i gronfeydd yr Eglwys yng Nghymru yn ystod y deuddeg mis diwethaf cyn y dydd yr enwebwyd ef, ac nad yw'n perthyn i unrhyw gorff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru, yn gymwys i fod yn aelod o Gorff y Cynrychiolwyr ac o unrhyw un o'i bwyllgorau a'i is-bwyllgorau.

(2) Ni fydd unrhyw un sydd yng ngwasanaeth cyflogedig llawn-amser Corff y Cynrychiolwyr, Bwrdd Cyllid Esgobaeth nac unrhyw gorff taleithiol neu esgobaethol arall o'r fath yn yr Eglwys yng Nghymru yn gymwys i fod yn aelod o Gorff y Cynrychiolwyr nac unrhyw un o'i bwyllgorau na'i is-bwyllgorau.

(3) Ni fydd unrhyw gymunwr llewg sydd wedi cyrraedd ei b/phen-blwydd yn bymtheg a thrigain oed yn gymwys i fod yn aelod o Gorff y Cynrychiolwyr.

8.

Bydd aelodaeth aelod etholedig neu gyfetholedig neu enwebedig o Gorff y Cynrychiolwyr yn dod i ben, os yw'r aelod yn Glerig, ar ei ben-blwydd yn ddeg a thrigain oed neu, os yw'n berson llewg, ar ei ben-blwydd yn bymtheg a thrigain oed, ond os digwydd ymddeoliad neu ben-blwydd o'r fath yn ystod cyfarfod o Gorff y Cynrychiolwyr neu unrhyw un o'i bwyllgorau bydd yr aelodaeth yn parhau hyd ddiwedd y cyfarfod. At bwrpas y rheoliad hwn, ystyrir bod cyfarfod a ohiriwyd hyd ddyddiad pellach na thrannoeth yn gyfarfod a ddaeth i ben.

9.

Bydd pob aelod llewg, cyn cymryd ei sedd, yn arwyddo datganiad mewn cofrestr a gedwir at hynny gan Ysgrifennydd Corff y Cynrychiolwyr, yn y ffurf hon:

Yr wyf fi, J ... S ... o ... drwy hyn yn difrifol ddatgan fy mod yn Gymunwr dros ddeunaw mlwydd oed, ac yn gymwys i fod yn aelod o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, ac nad wyf yn aelod o'r un corff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru.

(2) No Cleric in the full-time salaried employment of the Representative Body, a Diocesan Board of Finance or any other such provincial or diocesan body within the Church in Wales shall be eligible to be a member of the Representative Body or any committee or sub-committee thereof.

(3) No Cleric who has retired or who has reached his or her seventieth birthday shall be qualified to be a member of the Representative Body.

7.

(1) Subject to subsections (2) and (3), every lay Communicant who is over eighteen years of age, and who either resides or has resided at any time for a period of twelve months in a parish which is in Wales or who has been a contributor to the funds of the Church in Wales within the twelve months next preceding the day of his nomination, and who does not belong to any religious body which is not in communion with the Church in Wales, shall be qualified to be a member of the Representative Body or any committee or sub-committee thereof.

(2) No salaried employee of the Representative Body, a Diocesan Board of Finance or any other such provincial or diocesan body within the Church in Wales shall be eligible to be a member of the Representative Body or any committee or sub-committee thereof.

(3) No Lay communicant who has reached his or her seventy fifth birthday shall be qualified to be a member of the Representative Body.

8.

The membership of an elected, co-opted or nominated member of the Representative Body shall if that member is a Cleric cease on his or her seventieth birthday or if that member is a lay person shall cease on his or her seventy fifth birthday, save that if such retirement or birthday occurs during the currency of a meeting of the Representative Body or any committee thereof his or her membership shall continue nevertheless until the termination of such meeting. A meeting at any time adjourned beyond the then following next day shall be deemed to be terminated for the purpose of this section.

9.

Every lay person before taking his or her seat, shall sign a declaration in the following form in a register to be kept for that purpose by the Secretary of the Representative Body:

I, J...S...of...,do hereby solemnly declare that I am a Communicant over eighteen years of age and qualified to be a member of the Representative Body of the Church in Wales, and that I do not belong to any religious body which is not in communion with the Church in Wales.

10.

Bydd pob aelod sy'n ymddeol o Gorff y Cynrychiolwyr yn agored i fod yn aelod eto os yw'n gymwys ym mhopeth arall.

Rhan IV: Gweithdrefn

11.

(1) Bob tair blynedd, bydd Corff y Cynrychiolwyr yn ethol o blith ei aelodau Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd. Yn absenoldeb y Cadeirydd y Dirprwy Gadeirydd fydd yn llywyddu cyfarfodydd Corff y Cynrychiolwyr. Oni fydd y Cadeirydd na'r Dirprwy Gadeirydd yn bresennol mewn cyfarfod o'r fath, bydd Corff y Cynrychiolwyr yn ethol aelod arall i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw.

(2) Bydd gan y Cadeirydd neu, oni fydd Cadeirydd neu bod y Cadeirydd yn analluog neu'n absennol o'r Ynysoedd Prydeinig, y Dirprwy Gadeirydd yr hawl i alw cyfarfod arbennig o Gorff y Cynrychiolwyr ar yr amser ac yn y lle a benderfynir trwy roi i'r aelodau o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg o rybudd mewn ysgrifen ymlaen llaw.

12.

(1) Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn cynnal o leiaf ddau gyfarfod cyffredin bob blwyddyn, a gall gynnal cyfarfodydd eraill fel y bo gofyn.

(2) Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn penderfynu ar leoliad a dyddiad pob cyfarfod o'r fath.

Rhan V: Galluoedd

13.

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn meddu ac yn ymarfer pob gallu a roddir iddo gan y Corff Llywodraethol.

14.

Yn unol â darpariaethau Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914 a'r Cyfansoddiad, bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu i:

- (a) reoleiddio ei weithdrefnau ei hun; ac i
- (b) ddatgan sawl aelod presennol sy'n ffurfio cworwm.

10.

Any member of the Representative Body shall on retirement be eligible for membership if otherwise duly qualified.

Part IV: Procedure

11.

(1) The Representative Body shall elect triennially from amongst its members a Chairman and a Deputy Chairman. In the Chairman's absence the Deputy Chairman shall preside at meetings of the Representative Body and if neither the Chairman nor the Deputy Chairman is present at any such meeting, the Representative Body shall elect some other member to preside at that meeting.

(2) The Chairman or, if there be no Chairman or in the case of the Chairman's incapacity or absence from the British Isles, the Deputy Chairman of the Representative Body shall be empowered to call a special meeting of the Representative Body at such time and place as he or she shall prescribe on giving to its members not less than fourteen days notice in writing.

12.

(1) The Representative Body shall hold at least two ordinary meetings in every year and may hold other meetings as required.

(2) The Representative Body shall decide the place and date of each such meeting.

Part V: Powers

13.

The Representative Body shall possess and exercise any power conferred upon it by the Governing Body.

14.

Subject to the provisions of the Welsh Church Act 1914 and of the Constitution, the Representative Body shall have power:

- (a) to regulate its own procedures; and
- (b) to declare how many members present shall form a quorum.

15.

Penodi Pwyllgorau

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu i benodi pwyllgorau o blith ei aelodau neu o blith ei aelodau ac eraill ac i osod galluoedd ac amodau gorchwyl pob pwyllgor o'r fath.

16.

Eiddo a Rheoli Adnoddau

Wrth reoli ei adnoddau bydd Corff y Cynrychiolwyr:

- (a) mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Sefydlog, yn adolygu ei adnoddau a'r modd y rheolir ac y defnyddir hwy i hyrwyddo amcanion Archesgob, Esgobion, Clerigion a Lleygion yr Eglwys yng Nghymru; ac yn
- (b) llunio cyllideb daleithiol flynyddol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Sefydlog i'w chymeradwyo, a bydd y gyllideb honno yn cysylltu cyfanswm yr adnoddau ariannol sydd ar gael â'r polisi a'r blaenoriaethau y penderfynwyd arnynt gan y Pwyllgor Sefydlog.

17.

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn dal pob eiddo a ymddiriedir iddo at ddefnydd a dibenion Archesgob, Esgobion, Clerigion, a Lleygion yr Eglwys yng Nghymru ac at ymddiriedolaethau arbennig eraill yn unol â darpariaethau Deddf yr Eglwys yng Nghymru, 1914.

18.

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn dal pob eiddo a ymddiriedwyd neu a ymddiriedir iddo at yr ymddiriedolaethau a enwyd yn adran 17, eithr yn ddarostyngedig i'w awdurdod a'i alluoedd a'i ddyletswyddau statudol, dan orchymyn a rheolaeth y Corff Llywodraethol.

15.

Appointment of Committees

The Representative Body shall have power to appoint committees of its members or of its members and others and to specify the powers and terms of reference for each such committee.

16.

Property and Management of Resources

In the management of its resources, the Representative Body shall:

- (a) in consultation with the Standing Committee, review its resources and their management and use to effect the purposes of the Archbishop, Bishops, Clergy and Laity of the Church in Wales; and
- (b) formulate an annual provincial budget for presentation to the Standing Committee for approval, which budget shall relate the total available financial resources to the policy and priorities decided upon by the Standing Committee.

17.

The Representative Body shall hold all property which shall become vested in it in trust for the uses and purposes of the Archbishop, Bishops, Clergy, and Laity of the Church in Wales, and for other the special trusts, pursuant to the provisions of the Welsh Church Act 1914.

18.

The Representative Body shall hold all property which is or shall become vested in it upon the trusts referred to in section 17 but, subject to its statutory authority, powers and duties, under the order and control of the Governing Body.

19.

(1) Pan werthir unrhyw dir a gynhwysir yn enw Corff y Cynrychiolwyr, a hwnnw'n glastir neu'n glastir a adbrynwyd ac a drosglwyddwyd i Gorff y Cynrychiolwyr yn unol â Deddf yr Eglwys yng Nghymru, 1914 (neu'n cynrychioli tir o'r fath), rhaid dal cynnyrch clir y gwerthiant (a'r eiddo sydd o bryd i'w gilydd yn ei gynrychioli) a'i fuddsoddi neu ei ailfuddsoddi fel cyfalaf, ac ni cheir ei wario fel incwm, ac eithrio hyd yr awdurdodir y fath wario gan fil a ddeddfwyd yn briodol yn unol â'r darpariaethau ar gyfer hynny a geir ym Mhennod II .

(2) Ni newidir darpariaethau'r adran hon na'u diwygio na'u dileu ond trwy gynnig a gyflwynir a'i droi'n ddeddf yn ôl y drefn a draethir ym Mhennod II ar gyfer biliau.

20.

(1) Gellir buddsoddi pob arian a ddelir ar y pryd gan Gorff y Cynrychiolwyr ar ymddiriediaeth i'r Eglwys yng Nghymru neu unrhyw ddiben cysylltiedig â hi i brynu neu i sicrhau:

- (a) tir rhydd-ddaliedig yng Nghymru neu Loegr, a oes adeiladau arno ai peidio, ac a yw'n ddarostyngedig ai peidio i brydlesoedd, tenantiaethau, rhwyddhawliau neu gyfamodau cyfyngol;
- (b) tâl rhent parhaol neu dâl rhenti parhaol am dir yng Nghymru neu Loegr;
- (c) stociau, cronfeydd, soddgyfrannau, neu eiddo arall y mae'r gyfraith yn caniatáu (neu y gall o bryd i'w gilydd ganiatáu) i ymddiriedolwyr fuddsoddi arian ymddiriedolaethau ynddynt neu arnynt; ac
- (d) unrhyw stociau, cronfeydd, soddgyfrannau neu eiddo arall o ba fath bynnag

(2) Er gwaethaf popeth a gynhwysir uchod, ni fuddsoddir dim arian mewn nac ar stociau na chronfeydd na soddgyfrannau nac unrhyw fuddsoddiad arall sy'n daladwy i'r daliwr.

(3) Gall Corff y Cynrychiolwyr fenthyca arian ar sicrwydd eiddo, lle y gall yn briodol wneud hynny, hyd at werth llawn yr eiddo a gall gytuno na elwir am ad-dalu'r arian hwnnw am unrhyw nifer o flynyddoedd.

(4) Gall Corff y Cynrychiolwyr gadw yn yr un cyflwr (naill ai dros dro neu yn barhaol) unrhyw fuddsoddiadau a all ddod (trwy rodd neu gymwynas neu gymynrodd) i'w ymddiriedaeth ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru neu unrhyw bwrpas cysylltiedig â hi, er gwaetha'r ffaith nad yw'r buddsoddiadau hynny yn rhai a awdurdodir yma; a gall Corff y Cynrychiolwyr yn yr un modd gadw unrhyw fuddsoddiad a phob buddsoddiad a wnaed, neu yr honnir ei wneud, yn rhinwedd ei alluoedd i fuddsoddi.

19.

(1) On a sale of any land vested in the Representative Body and being or representing glebe or repurchased glebe land transferred to the Representative Body pursuant to the provisions of the Welsh Church Act 1914, the net proceeds of sale thereof and the property from time to time representing the same shall be held and invested or re-invested as capital and shall not be expended as income save insofar as such expenditure shall be authorised by a bill duly enacted in accordance with the provisions in that behalf contained in Chapter II.

(2) The provisions of this section shall not be altered, amended or abrogated except by a proposal introduced and enacted by the procedure set out in Chapter II with regard to bills.

20.

(1) All monies for the time being held by the Representative Body in trust for the Church in Wales or for any purpose connected therewith may be invested in the purchase or upon the security of:

- (a) freehold land situate in England or Wales with or without buildings thereon and subject or not subject to leases or tenancies easements or restrictive covenants;
- (b) a perpetual rent charge or perpetual rent charges issuing out of land in England or Wales;
- (c) stocks funds securities or other property in or upon which trustees are or may from time to time be authorised by law to invest trust monies; and
- (d) any other stocks funds securities or property whatsoever.

(2) Notwithstanding anything hereinbefore contained no money shall be invested in or upon any stocks funds securities or other investment in bearer form.

(3) The Representative Body may lend money on the security of any property on which it can properly lend up to the full value of the property and may contract that such money shall not be called in during any period of years.

(4) The Representative Body may retain either temporarily or permanently any investments which by reason of any gift benefaction or legacy may become vested in it in trust for the Church in Wales, or any purpose connected therewith, in their then existing state of investment notwithstanding that the same are not investments for the time being authorised hereunder, and the Representative Body may similarly retain all or any investments made or purporting to be made under or by virtue of its powers of investment.

21.

(1) Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu, yn ddarostyngedig i unrhyw Reoliadau a wneir o bryd i'w gilydd gan y Corff Llywodraethol, i godi arian o bryd i'w gilydd trwy forgais, neu mewn modd arall, ar sicrwydd unrhyw eiddo a ymddiriedwyd iddo, ac eithrio:

- (a) eglwysi a thiroedd ar gyfer eglwysi;
- (b) cronfeydd a gwaddoliadau a neilltuwyd yn arbennig ar gyfer atgyweirio, adfer, neu wella unrhyw eglwys; a
- (c) llestri, dodrefn, neu feddiannau symudol eraill sy'n perthyn i unrhyw eglwys.

(2) Gall Corff y Cynrychiolwyr ddefnyddio'r arian a godir felly at unrhyw bwrpasau y gall ar y pryd ddefnyddio arian dan ei reolaeth atynt.

22.

Ni fydd unrhyw aelod o Gorff y Cynrychiolwyr yn gyfrifol am unrhyw golled a achosir trwy ddibrisiad na methiant unrhyw fuddsoddiad na dim arall, ac eithrio pan achoswyd hynny trwy fai bwriadol y cyfryw aelod.

23.

Yn ddarostyngedig i'r hyn a ddarperir yma wedi hyn, bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr alluoedd llawn i werthu, cyfnewid, gosod ar brydles, a rheoli pob eiddo real a phersonol sydd ar unrhyw adeg wedi ei gynnwys yn ei enw,

ar yr amod bob amser:

- (1) nad arferir yr hawliau i werthu na chyfnewid gyda golwg ar:
 - (a) unrhyw lestri, dodrefn, neu feddiannau symudol eraill (ac eithrio'r rhai a enwir yn is-adran (2)) sy'n perthyn i unrhyw eglwys neu a ddefnyddir yn yr addoliad dwyfol mewn unrhyw eglwys;
 - (b) tiroedd esgobaeth neu gabidwl, clastiroedd a safleoedd ar gyfer eglwysi (heblaw safleoedd y darperir yn arbennig ar eu cyfer yma rhag llaw), tai esgobaeth a thai clastir, anheddau eglwysig ac unrhyw feddiannau symudol a ddelir neu a ddefnyddir ynglŷn â meddiant ar unrhyw gyfryw annedd; ac
 - (c) ysgoldai a thiroedd a feddiennir gyda hwy;

heb awdurdod a roddwyd gan benderfyniad mwyafrif o aelodau Corff y Cynrychiolwyr a fydd yn bresennol ac yn pleidleisio, a chydysyniad ysgrifenedig Esgob yr Esgobaeth y lleolir yr eiddo ynddi; eithr ni fydd yn angenrheidiol i'r un prynwr ymholi a roddwyd yr awdurdod neu'r cydsyniad hwnnw.

21.

(1) The Representative Body shall have power, subject to any Regulations to the contrary which may from time to time be made by the Governing Body, from time to time to raise money on mortgage, or otherwise, on the security of any property vested in it, except:

- (a) churches and sites for churches;
- (b) funds and endowments specially allocated to the repair, restoration, or improvement of any church; and
- (c) plate, furniture, or other moveable chattels belonging to any church.

(2) The Representative Body may apply money so raised to any purposes to which money under its control might for the time being be applied.

22.

No member of the Representative Body or of any committee or sub-committee of the Representative Body shall be liable for any loss occasioned by the depreciation or failure of any investment, or otherwise, save when caused by the wilful default of such member.

23.

Subject as hereinafter provided, the Representative Body shall have full powers of selling, exchanging, leasing and managing all real and personal property at any time vested in it.

provided always that:

- (1) the said powers of sale or exchange shall not be exercised as regards:
- (a) any plate, furniture or other moveable chattel (except such as are mentioned in subsection (2)) belonging to or used in connection with the celebration of divine worship in any church; or
 - (b) episcopal or capitular lands, glebes or sites for churches (other than sites hereinafter specially provided for), episcopal or glebe houses, ecclesiastical residences or any moveable chattel held or enjoyed with or incident to the occupation of any such residence; or
 - (c) any school house or any land occupied therewith;

unless authorised by a resolution of a majority of the Representative Body, present and voting, and assented to in writing by the Bishop of the diocese in which such property is situated, but it shall not be necessary for any purchaser to enquire whether such authorisation or consent has been given.

(2) Ni fydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu i werthu na chyfnewid na gosod ar brydles na gwneud i ffwrdd ag unrhyw dir cysegredig, nac unrhyw eglwys neu adeilad a godwyd arno, nac i wneud i ffwrdd ag addurniadau na llestri nac offer a ddefnyddir ynglŷn ag unrhyw sacrament, heb awdurdod a roddwyd trwy benderfyniad tri chwarter aelodau Corff y Cynrychiolwyr a fydd yn bresennol ac yn pleidleisio, a chydsyniad ysgrifenedig Esgob yr esgobaeth y lleolir y tir cysegredig, yr addurniadau, y llestri, neu'r offer ynddi;

(3) Dim ond yn y cyfryw fodd ac yn unol â'r rheoliadau, a osodir o bryd i'w gilydd gan y Corff Llywodraethol yr arferir pob gallu arall i osod ar brydles ac i reoli eiddo.

(4) Bydd unrhyw berson neu unrhyw gorff o bersonau yn yr esgobaeth y lleolir y cyfryw eiddo ynddi yn rhydd i wneud cais i Gorff y Cynrychiolwyr ar iddo weithredu dan yr adran hon.

24.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu i ostwng unrhyw gyflog neu grant sy'n daladwy ganddo trwy roi tri mis o rybudd ymlaen llaw, os digwydd ar unrhyw adeg fod amgylchiadau croes yn effeithio ar incwm Corff y Cynrychiolwyr ac yn gwneud y gostwng hwnnw'n angenrheidiol.

25.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu i roi cyfarwyddiadau i Fwrdd Persondai Esgobaeth ac i'w reoli.

26.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu i wneud rheoliadau ynglŷn â symiau o arian a ymddiriedir iddo gan Gynhadledd Esgobaeth yn unol â Phennod IV A adran 15.

27.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr, dan y teitl Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, y gallu i gychwyn neu i amddiffyn neu i gyfaddawdu unrhyw achos cyfreithiol, ac i gymryd unrhyw gam neu sicrhau unrhyw gymorth cyfreithiol neu gymorth arall angenrheidiol i'r pwrpas hwnnw.

(2) The Representative Body shall not have power to sell, or exchange, lease or dispose of any consecrated site, or any church or building erected thereon, or to dispose of ornaments, vessels or instruments used in connection with any of the sacraments, unless authorised by a resolution of three-quarters of the members of the Representative Body, present and voting, and assented to in writing by the Bishop of the diocese in which such consecrated site, ornaments, vessels, or instruments are situated.

(3) All other powers of leasing and managing shall be exercised only in such manner and in accordance with such regulations as may from time to time be made by the Governing Body.

(4) It shall be open to any person or body of persons in the diocese where such property is situated to make representation to the Representative Body requesting it to take action under this section.

24.

The Representative Body shall have power to reduce any stipend or grant payable by it upon giving three months' previous notice, if at any time adverse circumstances affecting the revenue of the Representative Body make that reduction necessary.

25.

The Representative Body shall have power to issue directions to and to control a Diocesan Parsonage Board.

26.

The Representative Body shall have power to make regulations with regard to sums of money entrusted by it to a Diocesan Conference pursuant to Chapter IV A section 15.

27.

The Representative Body, under the title of The Representative Body of the Church in Wales, shall have power to bring, defend, or compromise any action, and may take any step or engage any legal or other assistance necessary for such purpose.

28.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr yr hawl ar bob adeg i benodi ar ei draul ei hun bensaer neu syrfëwr i ddarparu adroddiad ar unrhyw eiddo a ymddiriedwyd iddo, a bydd gan y pensaer neu syrfëwr hwnnw hawl i archwilio unrhyw eiddo o'r fath ar ôl rhoi rhybudd rhesymol i'r preswlydd.

29.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu i benodi a thalu ysgrifennydd, a fydd yn Gymunwr, a'r cyfryw swyddogion a gwasanaethyddion eraill a farno'n angenrheidiol, a gall ddiswyddo unrhyw swyddog neu wasanaethydd pan farno ei bod yn briodol gwneud hynny a phenodi un arall o bryd i'w gilydd yn ei le neu ei lle.

30.

Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr y gallu i ddarparu'r tai, y swyddfeydd, yr adeiladau a'r ystafelloedd eraill hynny a fydd yn angenrheidiol iddo at ddibenion ei gyfarfodydd, neu at sicrhau preswylfod i'w swyddogion a'i wasanaethyddion neu le diogel i gadw ei soddgyfrannau, ei lyfrau, ei gyfrifon a'i ddogfennau eraill, ac i dalu rhent ac yswiriant a'r holl dreuliau eraill a gyfyd trwy ddarparu'r tai neu'r swyddfeydd hynny, neu a fydd mewn rhyw fodd arall yn angenrheidiol.

31.

(1) Bydd gan Gorff y Cynrychiolwyr Sêl Gyffredin, a bydd yn cyflawni dogfennau trwy osod ei Sêl Gyffredin arnynt yng ngŵydd Ysgrifennydd neu Ysgrifennydd Cynorthwyol Corff y Cynrychiolwyr neu Gyfreithiwr Corff y Cynrychiolwyr ac un aelod o Gorff y Cynrychiolwyr.

(2) Rhaid i Gorff y Cynrychiolwyr drefnu ar gyfer cadw'r Sêl Gyffredin yn ddiogel, ac nis defnyddir ond trwy awdurdod Corff y Cynrychiolwyr.

28.

The Representative Body shall have the right at any time to appoint at its expense an architect or surveyor for the purpose of obtaining a report upon any property vested in it, and such architect or surveyor shall be entitled to inspect any such property on giving reasonable notice to the occupier thereof.

29.

The Representative Body shall have power to appoint and pay a secretary who shall be a Communicant, and such other officers and servants as it shall deem necessary, and may remove any such officer or servant when it shall think proper so to do, and appoint another from time to time in his or her stead.


30.

The Representative Body shall have power to provide such houses, offices, and other buildings or accommodation as shall be necessary for the purpose of its meetings, or for the purpose of providing a residence for its officers and servants, or a safe place of custody for its securities, books, accounts, or other documents, and to pay rent, insurance, and all other expenses caused by its providing such houses or offices, or which may otherwise be necessary.

31.

(1) The Representative Body shall have a Common Seal and shall execute documents by affixing its Common Seal thereto in the presence of the Secretary or the Assistant Secretary of the Representative Body or the Solicitor to the Representative Body and one member of the Representative Body.

(2) The Representative Body shall provide for the safe custody of the Common Seal, which shall only be used by the authority of the Representative Body.



**Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru.
Argraffwyd ar ddefnyddiau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department.
Printed on recycled materials**